

Pris: 50c

Papur Pawb

Mai 2013 Rhif 389



Cylch Meithrin Tal-y-bont – tud 9

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9
Ysgolion

tud 11
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Siop Cynfelyn – Ar Agor!

Mewn cyfnod ariannol anodd a ninnau'n boddi yng nghanol newyddion dyddiol o grebachu a thorri nôl ar wasanaethau, braf yw gweld agor siop a chaffi cymunedol newydd sbon yn sgil agoriad swyddogol Siop Cynfelyn, Tre'r Ddôl ar ddydd Gwener, 3 Mai.

Bydd y rheiny ohonoch sy'n teithio'n gyson ar yr A487 rhwng Aberystwyth a Machynlleth wedi sylw ar y prysurwch diweddar yn safle Cletwr. Yn wir mae'r agoriad swyddogol yn ben llanw misoedd o waith caled gan fyddin o wirfoddolwyr lleol dan arweiniad dau reolwr rhan amser a benodwyd yn ddiweddar. Misoedd o gynllunio, codi arian, glanhau, gosod cyfarpar newydd a phaentio er mwyn gwireddu'r freuddwyd uchelgeisiol. Yr union bobl a fydd yn cynorthwyo i redeg y siop a'r caffi o ddydd i ddydd o hyn allan.

Sefdlwyd Cwmni Cymunedol Cletwr, ddeunaw mis yn ôl gyda'r bwriad o ailagor y siop a'r caffi a chafodd y prosiect hwb ddechrau'r flwyddyn ar ôl ennill cyllid gan gynllun Pentref SOS y Gronfa Loteri Fawr ynghyd â chyllid ychwanegol gan CAVO a Chronfa Eleri. Cafwyd agoriad hynod o brysur a fflid cyson o gefnogwyr a chwsmeriaid chwilfrydig gyda chymuned gyfan yn cael cyfle i ddatlu, fel y tysta Mike Indeka o Gwmni Cymunedol Cletwr; "Ers y dechrau rydym wedi cael cefnogaeth wych gan y bobl leol a chafwyd ymateb gwirioneddol ardderchog, gyda mwy na 800 o bobl wedi dod trwy'r drysau a mwynhau paned am ddim ar y diwrnod cyntaf".

Mae'r cwmni a'r gwirfoddolwyr yn awyddus i'r siop a'r caffi fod yn gyrchfan boblogaidd sy'n gwasanaethu'r gymuned leol gan gynnig y cyfle iddynt brynu nwyddau a chael sgwrs dros baned gyda ffrindiau. Eu

gobaith hefyd ydy estyn allan i gwsmeriaid eraill gan eu bod mewn sefyllfa ddelfrydol i wasanaethu twristiaid ac fel lle da i'r llif o yrrwyr sy'n mynd heibio dorri eu siwrnai. Darperir cyfrifiadur a gwasanaeth wi-fi am ddim yn y caffi at ddefnydd y



Jean Devoy y cwsmer cyntaf



cwsmeriaid ac mae cynlluniau ar waith i ddarparu Gwasanaeth Paypoint fel y gellir talu am filiau gwasanaethau a ffônau symudol. Bydd unrhyw elw o'r fenter gymunedol hon yn cael ei ailfuddsoddi er budd yr ardal leol.

Mae'r model busnes lle mae cymunedau'n rhedeg eu siopau eu hunain yn profi'n boblogaidd ar hyn o bryd. Wrth weithio gyda'i gilydd fel cymuned gobaith tîm Cwmni Cymunedol Cletwr ydy cwrdd a'r galw lleol gan gynnig ystod eang o hanfodion bob dydd a darparu cynnyrch lleol pryd bynnag y bo modd o gacennau cartref i gig a llysiau. Mae'n ddyddiau cynnar wrth gwrs, ac fel y dywed Mike, "Pan fyddwn ni wedi cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ar restr siopa ein cwsmeriaid lleol fe fydd modd i ni ehangu ein darpariaeth i adlewyrchu hynny. Rhaid cofio nad ydym wedi ein rhwymo i unrhyw gwmni masnachol mawr ac felly mae cynnwys stoc y siop yn llwyr yn nwylo'r gymuned".

Os y profa Siop Cynfelyn yn llwyddiant y gobaith tymor hir ydy ail agor yr orsaf betrol yn dilyn gwneud gwaith ailwampio er mwyn cynnig adnoddau modern. Mae cais pellach am gymorth gan y Gronfa Loteri Fawr eisoes wedi ei gyflwyno.

Mae gweld Siop Cynfelyn yn agor ei drysau am y tro cyntaf yn profi fod yr ysbryd cymunedol yn fyw ac yn iach ymysg trigolion pentref Tre'r Ddôl a'r gymuned gyfagos. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu gwaith caled ac ar greu siop a chaffi hynod ddeniadol a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones Enid Gruffudd; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 (01654) 781312
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Llywodraeth Cymru

Noson Binc

Llew Gwyn, Tal-y-bont
14 Mehefin, 7yh

Ocsiwn • Raffi • 'Bush Tucker Trials'

Elw tuag at

Ymchwil Cancr ac Ambiwllans Awyr Cymru

Rali CFFI Ceredigion

**i'w chynnal ar Fferm Berthlwyd, Tal-y-bont
Dydd Sadwrn, 15 Mehefin**

Cyfes o gystadleuthau ar themar 'Celtiaid' ymlaen trwy'r
dydd gan ddechrau am 9 y bore.

Dawns y Rali

i ddilyn yn Fferm Neuadd Fawr, Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Capel y Morfa, Aberystwyth
Oedfa Blant 10 yb ac Oedfa Oedolion 5.30 yp

Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Blynnyddol

7.30, Nos Lun 20 Mai 2013,
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso i Bawb

Gŵyl Lenyddol R S Thomas

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
6 – 8 Medi, 2013

Gwybodaeth bellach
ac archebu tocynnau:
joyneal@btinternet.com 01654 781203
alisonswanson@hotmail.com 01654 781322

Ioga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dyddiadur

Mai

- 12 Cymanfa Ganu Gogledd
Ceredigion, Capel y Morfa,
Aberystwyth 10 yb a 5.30 yp
Bethel Y Gymanfa Ganu
Nasareth Y Gymanfa Ganu
Rehoboth Y Gymanfa Ganu
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaidd
- 17 Clwb Nos Wener yn y Llew
Du: Geraint Lovegreen a
Myrddin ap Dafydd yn *Dilyn
y Lluwynog*
- 19 Bethel 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 10 Parch Ifan
Mason Davies
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol
Weddi
- 20 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Merched y Wawr (Cyfarfod
Blynnyddol)
'Cadw dy Afraid' Ail-gylchu
(Mererid Jones)
- 21 CFFI, Cyfarfod arbennig i
Brif Stiwardiaid y Rali,
Neuadd Goffa, 8yh
- 26 Bethel 2 Gweinidog (C)
Nasareth 5 Parch Judith
Morris
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Deuluol

Mehefin

- 2 Bethel 10 Gwasanaeth
Teuluol
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 10 Tegwyn Jones
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaidd
- 4 Llanfach, Taliesin
Sefydliad y Merched
Gofal Plant i Dywysog Saudi
(D. Smith)
- 9 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 Rhidian Griffiths
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaidd
- 15 Rali CFFI Ceredigion, Fferm
Berthlwyd, Tal-y-bont a
dawns gyda'r hwyr ar Fferm
Neuadd Fawr, Tal-y-bont
- 16 Bethel 10 Undebol yn Soar,
Llanbadarn
Nasareth
Rehoboth 2 Parch Richard
Lewis
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol
Weddi
- Bethel, Cymanfa Rali CFFI
Ceredigion, 7.30
- 22 Gŵyl Pêl-droed Tal-y-bont

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Darlith Flynnyddol Morlan – 2020:
*Diwylliant Darlledu, Elan Closs
Stephens* (7.30, 9 Mai). Cadeirydd:
Rhodri Llwyd Morgan. Mynediad: £3
- C21 yn Morlan (7.30, 22 Mai)
- Bwrw Bol (7.30, 12 Mehefin)
- Rhagbysbys: Taith Gerdded o
amgylch coedlannau Llandre (10
Gorffennaf)

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

CRŌESO CYNNES I BAWB!

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Rhian a Catrin gyda Ceri Jones
yn dylunio. Golygyddion y rhifyn
nesaf fydd Phil a Megan
(gwynionydd@btinternet.com;
01970 832384) gyda
Sion Pennant yn dylunio.
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r
golygyddion erbyn
Dydd Gwener, 7 Mehefin.
Bydd y papur ar werth ddydd
Gwener 14 Mehefin.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddôl ar ennill gwobr gyntaf am ddarn o lenyddiaeth i rai dros 65 oed yn Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth. Enillodd Carys gwpan hefyd yn ddiweddar am y darn gorau o lenyddiaeth yn Eisteddfod Tal-y-bont ger y Bala.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Richard a Liz Spencer, Tŷ Manceinion, Tre Taliesin, ar ddathlu eu penblwydd priodas rhuddem yng nghanol mis Ebrill.

Adref o'r Ysbyty

Braf yw gweld Mr Ceredig Lloyd, Y Shop, Bont-goch yn ôl yn ei gynefin ar ôl treulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn Aberystwyth. Dymunwn wellhâd buan a llwyr iddo. Dymunwn yn dda hefyd i Mr Jim Owens, Hengoed, sy'n anhwylys ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau

Yn Eisteddfod Calan Mai, a gynhaliwyd yn y Morlan, Aberystwyth, daeth Sam Ebenezer yn 1af am ganu dros 18 oed a 1af mewn deuawd - Llongyfarchiadau i ti Sam.

Côr Cymru

Llongyfarchiadau i Miss Siwan Jones, athrawes yn Ysgol Llangynfelyn am ei llwyddiant yng nghystadlaeth Côr Cymru yn ddiweddar. Roedd Miss Jones yn aelod o Gôr y Wiber a ddaeth yn gyntaf yn y gystadlaeth.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Myrna Bailey, Arosfa, Tre Taliesin, ar ôl bod yn Ysbyty Bronglais am ychydig ddyddiau ym mis Ebrill.

Llongyfarchiadau

Anfonwn ein llongyfarchiadau i Gary Jones a staff Fferyllfa'r Borth ar gael eu henwi ymysg y tri olaf ar gyfer un o wobrau Fferyllfeydd Cymru 2013. Enwebwyd Gary yn y categori Datblygiad Busnes y Flwyddyn a hynny yn sgîl ei ymdrechion i ddarparu rhagor o wasanaethau i'w gwsmeriaid, megis darparu mannau casglu presgripsiwn mewn Swyddfeydd Post lleol.

Ysbyty

Gwellhad buan i Gerald Roberts a Gertie Davies, y ddau o Maes-y-deri, ac i John Jenkins, Aberceulan, Tal-y-bont a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Priodas

Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gwresog i Mared Llwyd ac Elgan Griffiths, Y Gorlan, Tre Taliesin, ar eu priodas hudolus yn Nant Gwrtheyrn ar 6 Ebrill. Roedd y tywydd a'r lleoliad yn berffaith.



Priodas

Llongyfarchiadau i Stephen a Claire Clarks, Garej Davmor, ar eu priodas ar ddydd Sadwrn, 23 Mawrth, yn Eglwys Saviours ar y 'Wirral' - sef cartref Claire. Er gwaetha'r eira a'r lluwchfeydd, llwyddodd y rhan fwyaf o deulu Stephen gyrraedd y briodas. Cafwyd y wledd briodas yng Nghaer ac yna mi dreuliodd y ddau eu mis mēl yn Mecsico yn ymlacio yng nghanol adfeilion Chitzen Itza.

Penblwyddi Arbennig

Penblwydd Hapus iawn i Iorwerth Jones, Brynamor, Tre Taliesin, a ddathlodd benblwydd arbennig ar 15 Ebrill. Hefyd, i'w gymdoges Mrs Mary Powell, Suncot, a fydd yn dathlu ar 7 Mai. Dymuniadau gorau i Dorothy Green, Pantglas, Tal-y-bont a Catrin Mai, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont a ddathlodd benblwydd arbennig yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ag Anwen Haynes, Y Bwthyn, Tre Taliesin, ar golli ei modryb oedd yn byw yn Southampton yn ddiweddar. Rydym hefyd yn cydymdeimlo ag Elgan Griffiths, Y Gorlan, Tre Taliesin, ar golli ei daid ar ddechrau mis Ebrill.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Steffan Nutting, Tŷ Hen Henlllys, sydd wedi cael swydd yn Ysgol Gynradd Llandysul.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont ar ôl damwain sgîo ac i Mrs Tessa Evans, Maes y Deri sydd yn yr ysbyty ar ôl cwympo a thorri ei choes yn ddiweddar.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Kate a Michael Evans, Maes-y-deri, ar enedigaeth eu merch fach Ruby, chwaer fach i Ryan a Lauren.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Amy Staniforth a Rob Davies a symudodd i'r eco-dŷ maent wedi'i adeiladu, Cae Bach, Tre Taliesin, ym mis Mawrth.

Dangos Doniau

Bu Medi Evans, Neuadd Fawr, yn cymryd rhan gyda Chymdeithas Capel Carmel - yn chwarae'r delyn ac yn clocio.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn ag Ellyw a Dafydd Jenkins a'r teulu, Tanyrallt, ar golli modryb i Ellyw, sef Mrs. Betty Jones, Garthowen, Machynlleth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rosalie Metcalfe, Nirvana, Tre Taliesin, sydd wedi dyweddio â Siôn Davies, Pïsgah. Llongyfarchiadau hefyd a phob dymuniad da i'r rhieni Eiriona a Bill Metcalfe, ar ddathlu eu penblwydd priodas aur adeg y Pasg.



Pat Evans Cadeirydd, Meinir Fleming, Beti Wyn, Josie Smith, Margaret Fogg a Val Walsh

Llwyddiant yn Sioe Wanwyn Sefydliad y Merched Ceredigion

Bu aelodau o Sefydliad y Merched Tre Talieisn yn ddiwyd yn ystod yr wythnosau diwetha, yn paratoi tuag at y Sioe Wanwyn. Penderfynwyd cydweithio eleni ar thema 'Eastern Promise' gan greu cyfanwaith o chwech eitem gwahanol oedd yn cydgyssylltu ar y thema mewn gosodiad addas a phwrpasol. Gweithiwyd tri darn o waith llaw, gosodiad blodau, coginio a chyffaihaidd addas. Roedd mewnbyn gan bawb ar lwyfannu y darnau unigol yn gelfydd i gyfleu naws a lliwiau'r wlad. Bu cystadlu brwd ddydd Sadwrn 21 Ebrill yn Neuadd Ciliau Aeron, a beirniadwyd gwaith Taliesin yn 1af. Y nhw felly fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Llanelwedd ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Hefyd ar yr eitemau unigol yn Sioe y Sir, daeth Pat Evans yn 3ydd ar ei gosodiad blodau, Josie Smith yn ail am lun brodwaith a Beti Wyn yn 1af am eitem wedi ei wneud o froc-mor.

Llongyfarchiadau iddynt a phob lwc yn y Sioe Fawr!



Arbrawf Wŷn Hyrddod

Ar y 23ain o Ebrill, daeth aelodau o Gymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion ynghyd i dderbyn yr ŵyn hyrddod yn ôl, ar ôl bod i ffwrdd yn pori dros y gaeaf ym mhen draw Pen Llŷn, ar fferm Bodermud Isaf, Uwch y Mynydd, Aberdaron.

Daeth 56 hwrdd yn ôl, yn edrych yn dda, er gwaethaf y gaeaf caled. Roeddynt wedi prifio'n dda, ac wedi rhoi pwysau da ymlaen. Roedd dau gwpan i'w ennill. Gyda indecs o 174 enillwyd Cwpan Hybu Cig Cymru am yr hwrdd gyda'r indecs uchaf gan Huw Davies, Llety Ifan Hen, Bont Goch. Gweithiwyd yr indecs allan drwy fesur y cynnydd mewn pwysau ynghyd a mesur cyhur a braster y corff. Rhoddodd hwrdd Huw 11.4kg arno dros y gaeaf, gyda'i gyhur yn mesur 28.2mm a'r braster yn 1.9mm.

Y cwpan arall oedd 'Cwpan Rumenco', pan oedd pob aelod yn cael dewis eu hwrdd gorau. Enillwyd hwn gan Dei a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys. Hwn, hefyd oedd yr hwrdd a ddewiswyd yn orau wrth i'r hyrddod fynd i ffwrdd ar ddechrau'r gaeaf. Hwrdd Bryn a Rheinalt Jones, Hirnant, Ponterwyd, ddaeth yn ail, ac yn gyfartal drydydd oedd dau hwrdd Dafydd Jones, Ceiro, Ponterwyd.

Cyflwynwyd Cwpan Rumenco i Dei Nutting gan Gwilym Jenkins, a chwpan Hybu Cig Cymru i Huw Davies, gan yr Is Gadeirydd, Bryn Jones.

Ysgol Llangynfelyn



Gêm Mathemateg '24'



Diwrnod Affrica



Diwrnod Tacluso

Ysgol Llangynfelyn

Ffarwelio

Ffarweliwyd â Miss Seren Smith ar ddiwedd y tymor. Er iddi ond fod yn yr ysgol am hanner tymor, rydym wedi gwerthfawrogi ei gwaith caled yn fawr iawn. Cyflwynwyd cerdyn iddi a thalebau siopa gan y plant a'r staff ar ei diwrnod olaf. Dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos.

Penwythnos Llangrannog

Ar ôl ysgol ar ddydd Gwener Ebrill 19eg, aeth 11 o blant o Flynyddoedd 4, 5 a 6, Miss Jones, Miss Seren a Mr Jones i Wersyll yr Urdd Llangrannog am y penwythnos. Cafwyd tywydd braf iawn ar y dydd Sadwrn gyda phawb yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau. Ar ôl noson dda o gwsg ar y nos Sadwrn daeth y glaw i lawr yn drwm yn ystod y go-cartio ond ni sbwylodd hyn yr hwyl. Aeth pawb adref wedi blino'n lân ond wedi cael profiadau arbennig gyda phlant eraill o Geredigion.

Gêm Mathemateg '24'

Aeth Seren, Zeb, Harvey a Ben i Ysgol Llwyn yr Eos ar fore Llun Ebrill 22ain i gymryd rhan mewn cystadleuaeth '24'. Nod y gêm yw ceisio gwneud y rhif 24 gan ddefnyddio 4 rhif sydd ar wahanol gardiau. Gallant adio, tynnu ffwrdd, rhannu neu luosi. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn 5 ysgol arall o ardal Aberystwyth. Atebodd y bechgyn yn dda iawn, gyda rhai yn medru ateb yn gyflym iawn. Da iawn chi fechgyn am roi cynnig ar gystadleuaeth anodd a chystadleuol iawn!

Cynnal y Cardi

Daeth Meriel Davies o brosiect Cynnal y Cardi, Ceredigion i'r ysgol i drafod yr ardal leol gyda'r plant a'r rhieni. Y syniad tu ôl i'r prosiect yw cael barn bobl leol o bob oed am eu cymuned a beth fyddent yn hoffi gweld yn y gymuned yn y dyfodol. Cafwyd awgrymiadau diddorol iawn gan y plant o sut i wella'r ardal leol ac am gyfleusterau newydd yr hoffent weld fel parc chwarae a llwybrau beicio.

Diwrnod Affrica

Cyn y Pasg, lansiodd Adran Addysg Ceredigion brosiect diddorol iawn am Affrica. Cafodd pob ysgol yng Ngheredigion ddarn o gotwm Masnach Deg wedi'i dorri i siâp gwlad o Affrica. Ein gwlad ni oedd Mauritania. Ymchwiliodd y plant hyn ffeithiau yn ymwneud â'r wlad a bu grŵp o blant yn brysur iawn yn addurno'r map gyda lluniau a ffeithiau yn ymwneud â Mauritania. Casglwyd y mapiau i gyd at ei gilydd a'u gwnio i wneud map enfawr o Affrica. Dewiswyd ein map ni o Fauritania, gyda 9 ysgol arall fel y rhai gorau yng Ngheredigion. Ein gwobr oedd cymryd rhan mewn Diwrnod Affrica ym Mhrifysgol Llambed. Aeth Ffion, Zeb, Ruby, Gracie a Milly i Lamberd ar y 24ain o Ebrill gyda phlant o'r 9 ysgol arall. Cafwyd diwrnod arbennig o dda, gyda'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdai celf, drymio, dawnsio a Masnach Deg gyda phobl o Ghana, Nigeria a Zimbabwe. Cafwyd bwyd traddodiadol o Ghana i ginio hefyd. Bydd y map o Affrica yn cael ei arddangos mewn amryw o leoliadau cyhoeddus yng Ngheredigion. Edrychwch allan am ein gwlad ni, Mauritania – mae yng nghornel Gogledd Gorllewinol Affrica.

Diwrnod Tacluso

Daeth criw da o blant, staff a rhieni i wneud ychydig o dacluso o gwmpas tir yr ysgol. Roedd yn dair awr lewyrchus iawn ar brynhawn Sul gyda phopeth yn barod yn yr ardd i blannu hadau cyn bo hir.

Bags2School

Daeth y fan Bags2School i'r ysgol i gasglu'r sachau dillad. Diolchwn yn fawr iawn i bawb a ddaeth a sachau i'r ysgol. Byddant yn cael eu pwyso a bydd yr ysgol yn cael peth arian amdanynt.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhelir wythfed noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân yn Eglwys Elerch ar Nos Wener, 28 Mehefin, i ddechrau am, 7yh. Gwahoddwyd Côr Gorau Glas o ardal Machynlleth i'n diddanu eleni, ynghyd ag artisaitaidd eraill. Y Llywydd fydd Mrs Carys Briddon, un o blant y pentref. Mae tocynnau ar werth gan swyddogion yr Eglwys am £7 (Plant: £2), neu, os dymunir, gellir talu wrth y fynedfa ar y noson. Ar hyn o bryd mae gwaith atgyweirio arbenigol yn mynd yn ei flaen ar rai o ffenestri'r Eglwys a bydd cyfle i edmygu'r ffenestri newydd adeg y gyngerdd.

Mentora ym Miosffer Dyfi

Gan adeiladu ar lwyddiant datblygu adnoddau a chynadleddau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae athrawon erbyn hyn yn cael eu hyfforddi i addysgu eu disgyblion ynglyn â chynaliadwydd a'r amgylchedd naturiol gan ddefnyddio adnoddau newydd Biosffer Dyfi.

Bydd Grŵp Addysg Biosffer Dyfi (gan gynnwys Canolfan y Dechnoleg Amgen, Coetiroedd Dyfi, Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, RSPB Ynys-hir, Cyfoeth Naturiol Cymru (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi) ac Addysg Fferm a Chefn Gwlad), yn mentora athrawon o Bowys, Gwynedd a Cheredigion yn ystod mis Mai er mwyn i'w disgyblion ddod i'r afael ag ystod o lefydd yn yr awyr agored o fewn Biosffer Dyfi.

Dywedodd Hefin Jones, Pennaeth Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, "Mae'r athrawon wir yn gwerthfawrogi'r cyfle yma i ddysgu sut i ddefnyddio'r adnoddau newydd. Mae sgiliau'r plant wedi gwella'n fawr wrth gymryd rhan yn y profiadau ymarferol hyn o'r blaen."

Bydd disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn ymchwilio cynaliadwydd adeiladau, bioamrywiaeth gwahanol gynefinoedd a sut i wella tiroedd eu hysgolion er budd bywyd gwyllt a phobl. Bydd cyfle i weld a oes bwyd lleol mewn cinio ysgol a bydd plant yn cyfweld â ffermwyr lleol ynglŷn â lle mae eu cynnyrch yn mynd. Bydd dyfnderoedd mawnog un o ardaloedd craidd Biosffer Dyfi, Cors Fochno, yn ysbrydoliaeth wrth ystyried hanes yr ardal. Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn ymchwilio rhyng-gipio glaw mewn coedwigoedd conwydd a chollddail er mwyn darganfod sut gall coetiroedd helpu rhwystro llifogydd yn yr ardal.

Dywedodd Iolo ap Gwynn, Cadeirydd Partneriaeth Biosffer Dyfi "Mae'r Grŵp Addysg yn un o nifer o grwpiau sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Biosffer Dyfi er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r ardal arbennig yma. Bydd eu hadnoddau cyffrous o gymorth i'n pobl ifanc werthfawrogi'r cyfoeth naturiol sydd gan Fiosffer Dyfi i'w gynnig."

Am ragor o wybodaeth am Grŵp Addysg Biosffer Dyfi, a sut gallwch chi gymryd rhan, cysylltwch ag addysg@biosfferdyfi.org.uk

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

MID WALES STORAGE

Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont



Glesni a Betsan yn canolbwyntio ar y peintio

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai digon prysur i'r clwb. Yn ystod mis Mawrth bu'r aelodau Iau yn cystadlu yng Nghwis Iau y Sir yn Neuadd Llanfarian a bu criw'r Ddrama 'Ffyrst Responders' yn perfformio yn Neuadd Llanafan yng nghwmni Clwb Trisant, a diolch i Elen Pencwm a Rhian Glanrafon am berfformio ar y funud olaf yn sgil absenoldeb rhai aelodau o'r cast. Er nad oedd pob llinell yn iawn na phob prop yn ei briod le, cafwyd noson hwyliog a diolch yn fawr i bawb am y croeso cynnes. Daeth Gwennan Davies, Brenhines y Sir a Llion Davies, Ffermwr Ifanc y Sir i gynnal noson ar y 18 Mawrth pan fu'r aelodau yn dysgu sgiliau gweithio fel tîm a bu rhai o'r aelodau hynaf yn Niwrnod Hwylus y Pasg yng nghlwb Rygbi Aberaeron yn mwynhau'r gemau a drefnwyd gan Mared a disgo Huw Bryant.

Cychwynwyd mis Ebrill ar nodyn egnïol pan gynhaliwyd noson o Zumba i'r aelodau yn y Neuadd Goffa a bu cyfle i finiogi sgiliau rygbi, pêl droed a hoci'r aelodau mewn noson a gynhaliwyd ar Gae Chwarae'r Odyn Galch. Ymunodd aelodau clybiau CFFI Ceredigion â Gwenno Griffith, Cadeirydd CFFI Cymru i gerdded i ben Pumlumon. Mae Gwenno wrthi yn cerdded pwynt uchaf pob sir er mwyn codi arian i elusen CFFI Cymru sef Ymchwil y Galon.

Ar ddydd Sadwrn, 20 Ebrill bu cynrychiolaeth o'r clwb yn cystadlu ar ran Ceredigion yn Niwrnod Maes Cymru yn Rhuthun wrth farnu stoc a ffensio. Ddiwedd y mis fe fu'r aelodau a rhai rhieni a chyn aelodau ar ymweliad diddorol ac IBERS, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth. Bu'r cyflwyniadau i'r dulliau diweddaraf o drin y tir a gwahanol borfeydd yn agoriad llygad i bawb a braf oedd cael cwmni Rhun Fychan, cyn aelod o'r clwb yn ein tywys o gwmpas. Gyda diwrnod y Rali yn prysur agosau mae'r aelodau wedi bod yn ymbaratoi at y diwrnod mawr. Bu rhai o'r aelodau'n brysur yng nghwmni Ruth Jên yn dechrau paratoi arwyddion y Rali ar thema'r



Ymweld ac IBERS

Celtiaid ar nos Fercher, 1 Mai a diolch i Cronfa Leri am eu cefnogaeth ariannol tuag at y gweithdy. Edrychwn ymlaen at weld pawb yn mwynhau ym Merthlwyd ar y 15 Mehefin ac yn y Ddawns gyda'r hwyr yn Neuadd Fawr.

RHE

Cymanfa Ganu Rali CFFI Ceredigion

yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont
Nos Sul, 16 Mehefin, 7.30 yh

Llywydd: Mrs Eirwen Hughes, Pencwm

Arweinydd: Peter Leggett

Artistiaid: Elen Thomas, Aelodau CFFI Tal-y-bont ac

Aelodau Ysgol Sul, Bethel

Cyfeilydd: Catrin Jenkins

Mynediad trwy raglen: Oedolion - £4 a Dan 16 oed - £2

argraffu da
am bris da



y/lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI

GWASANAETH GOLCHI

DWFES MAWR

CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES

Ffôn: 01970 612459

Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor.

Estynnodd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Emyr Davies, groeso i'r aelodau ac i Menna Machreth, *Cydllynydd Cynghrair Cymunedau Cymraeg*, a oedd wedi cytuno i roi cyflwyniad byr ynghylch amcanion y Cynghrair; byddai'r cyflwyniad yn sail i drafodaethau maes o law o'r hyn y gall y Cyngor ei wneud i hybu'r iaith o fewn y gymuned.

Hybu'r Iaith Gymraeg

Yn ei chyflwyniad, eglurodd Menna Machreth mai'r dasg fwyaf yn wyneb canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011 yw codi hyder ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, yn arbennig felly pobl ifanc. Mae'n bwysig hefyd dwyn perswâd a chynorthwyo mewn fudwyr i ddysgu'r iaith. Prif amcan y Cynghrair yw bod yn fforwm i annog cydweithio a rhannu arferion da rhwng y cymunedau hynny sydd eisiau gweld y Gymraeg yn cael ei chynnal a'i hybu yn eu hardal leol. Derbyniwyd llythyr hefyd gan un o drigolion Ceulanamaesmawr yn awgrymu y dylai'r Cyngor gymryd rôl arweiniol i hybu'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Credai'r llythyrwr mai'r blaenoriaethau yw: (i) ceisio ffyrdd o wneud y Gymraeg yn fwy *chwadwy* ar y stryd ac yn y gymdeithas yn gyffredinol, (ii) gwneud pobl yn fwy *ymwybodol* o'r Gymraeg ym mhob elfen o'u bywydau. Yn sgil cyflwyniad Menna Machreth a'r llythyr a dderbyniwyd, cytunwyd mai da o beth fyddai i'r Cyngor drefnu cyfarfod agored ym mis Mehefin i wyntyllu'r mater ymhellach.

Fferm Wynt Nant-y-moch

Derbyniwyd llythyr i hysbysu'r Cyngor bod SSE wedi penderfynu oedi cyn cyflwyno'r cais i'r Arolygiaeth Gynllunio. Un rheswm a roddir ganddynt am yr oedi yw'r hinsawdd buddsoddi presennol ar gyfer egni adnewyddadwy yng Nghymru; maent wedi penderfynu peidio â buddsoddi rhagor yn y prosiect nes bod cynlluniau'r Llywodraeth am egni adnewyddadwy yn fwy eglur.

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai Cyngor Ceredigion i hysbysu'r Cyngor bod y Cyngor Sir bellach wedi derbyn adroddiad ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad fod y Cynllun yn cyflawni'r profion cadernid a osodwyd. Nodwyd ymhellach fod y Cyngor Sir bellach wedi mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol, ac o hyn ymlaen hwn fydd sail y penderfyniadau ynghylch cynllunio defnydd tir drwy'r sir. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn dylanwadu'n drwm ar ddatblygiad tai ym mhentref Tal-y-bont dros y pymtheng mlynedd nesaf. Nodwyd y bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn fuan i'w harchwilio.

Parcio ar y Palmentydd

Derbyniwyd cwynion fod cerbydau'n parcio ar y palmentydd yng nghanol y pentref gan ei gwneud yn anodd i bobl wthio bygi neu bram heibio iddynt. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y broblem.

Y Dilywiad/The Floodees

Cyhoeddwyd fod y rhai a ddioddefodd yn sgil y llifogydd yng ngwaelod y pentref ym mis Mehefin yn trefnu noson i ddiolch i bawb am eu cymorth. Cynhelir y digwyddiad ar y Patshyn Glas nos Wener 7 Mehefin – union flwyddyn wedi i'r llifogydd ddifetha eu cartrefi.

Dôl Pistyll

Deellir nad yw stad Dôl Pistyll eto wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir. Cytunwyd i ysgrifennu unwaith yn rhagor at y Prif Weithredwr yn pwysu arnynt i gwblhau'r setliad.

Ras yr Iaith

Adroddwyd fod ras gyfnewid i'w chynnal ym mis Medi, o Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth i Gastell Aberteifi. Pwrpas y ras fydd dathlu'r iaith Gymraeg a chryfhau cymunedau. Mae cynlluniau ar droed i wahodd sefydliadau lleol i ymuno yn y ras a gweithgareddau eraill a drefnir yn ei sgil.

Cyfarfod Blynnyddol

Atgoffwyd yr aelodau mai cyfarfod nesaf y Cyngor fydd y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir am 7.30 nos Lun 20 Mai 2013.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Un o'r materion cyntaf i mi godi yn y Cynulliad ar ôl dychwelyd o doriad y Pasg oedd herio penderfyniad gwarthau Amazon i wrthod gwerthu llyfrau Cymraeg yn electronig ar Kindle. Mae hyn yn gwbl ymarferol i wneud ac mae cwmni cyhoeddi'r Lolfa, a siŵr o fod eraill, yn awyddus i werthu yn electronig. Gofynnais i'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC am ddatganiad ar y camau y bydd yn ei gymryd i fynd mewn i drafodaeth gyda chwmnïau sy'n gwerthu llyfrau yn electronig ynghylch eu cyfrifoldeb i gynnwys gwerthu llyfrau Cymraeg yn electronig ac yn fyd-eang. Yn ddiweddar, mae miloedd o bobl wedi arwyddo deiseb yn galw ar Amazon i ganiatáu cyhoeddi e-llyfrau Cymraeg ar y Kindle. Mae mwylfwr o bobol yn prynu llyfrau yn electronig erbyn hyn, ac mae'n bwysig fod yna ddewis llyfrau Cymraeg ar y cyfrwng yma. Wrth gwrs, fe rydyn ni'n ffodus yng Ngheredigion fod gennym nifer o siopau lleol sy'n gwerthu ystod dda o lyfrau Cymraeg.



Mae sector elusennol a gwirfoddol Ceredigion wedi cael sawl ergyd yn ddiweddar. Yn gyntaf, Ffagl Gobaith ac yn y mis yma, Rhosserchan a Phafiliwn Bont. Mae'r dirwasgiad a'r toriadau yn bwrw pob sector.

Newyddion trist oedd clywed fod Rhosserchan, Canolfan adsefydlu cyffuriau ag alcohol ger Aberystwyth wedi cau. Fe weithiodd y cyfarwyddwyr yn galed iawn i wneud Rhosserchan yn gynaliadwy. Yr wyf yn gobeithio nad yw popeth wedi ei golli a byddaf yn gweithio gydag unrhywun sydd â diddordeb i weld a yw'n bosibl i atgyfodi'r ganolfan breswyl yn Rhosserchan. Teimlaf yn gryf fod angen canolfan o'r fath o hyd.

Trist hefyd oedd clywed fod y drysau wedi cau ar Bafiliwn Bontrhydfendigaid am y tro. Mae'r pafiliwn wedi bod yn gaffaeliad aruthrol ers iddo agor sawl degawd yn ôl yn enwedig ers iddo gael ei ailadeiladu yn y blynyddoedd diwethaf. Fel eraill, rwyf wedi mwynhau llawer o ddigwyddiadau yno a dwi'n mawr obeithio y daw eraill i ail-agor y drysau cyn hir.

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Ysgol Tal-y-Bont

Y Gymuned

I ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni, penderfynwyd gwahodd rhieni ac aelodau o'r gymuned i ddarllen gyda'r plant. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu hamser. Cafodd y plant hwyl wrth wisgo'n wyrdd a chodi arian i Childline Cymru yn un pryd.

Am dair wythnos bu Mrs Rose Jones yn cynnal sesiynau Iaith a Chwarae yn yr ysgol. Roedd hyn yn gyfle arbennig i wahodd rhieni'r Cylch Meithrin atom i hyrwyddo medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r plant.

Comic Relief

Ar ddiwrnod Comic Relief eleni, dymuniad y Cyngor Ysgol oedd i bawb wisgo hetiau. Roedd hi'n dipyn o ryfeddod i weld cymaint o blant ac athrawon wedi gwneud ymdrech a chael hwyl wrth godi arian i achos teilwng.

Eisteddfod yr Urdd

Fel arfer mae'r cyfnod hwn yn un hynod brysur wrth i ni gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Rydym mor falch fod cymaint o blant yr ysgol wedi cystadlu unwaith eto naill ai fel unigolion, mewn partion canu a llefaru, yn dawnsio disgo ac mewn ensemble offerynnol.

Llongyfarchiadau mawr, i Miriam, Tomos, Glain, yr ensemble offerynnol, y parti unsain a'r dawnsywyr disgo am eu gwobrau – ardderchog!

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Jenkins a Glain Davies am eu llwyddiant yn canu gydag Adran Tref Aberystwyth. Pob hwyl iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai.

Diolch yn fawr iawn i'r plant i gyd am eu holl waith caled a diolch hefyd i'r staff a'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod y cystadlu. Diolch arbennig i Lucy Hughes am hyfforddi'r dawnsywyr disgo.

Pêl-droed

Daeth y tymor pêl-droed i ben gyda dau bencampwriaeth ar gaeau Blaendolau.

Yn gyntaf bu tîm bechgyn a thîm merched yn cystadlu ym mhencampwriaeth rhanbarth Ceredigion yr Urdd. Chwaraeodd y merched bedair gêm gan ennill dwy a cholli dwy. Tia sgoriodd y gôliau i gyd a Hana, Jade, Emily, Libby, Glain a Seren oedd gweddill y tîm – da iawn chi ferched.

Fe wnaeth y tîm bechgyn eu gwaith yn rhagorol wrth gyrraedd y rownd cyn-derfynol. Roedden nhw'n chwarae pêl-droed o'r safon uchaf ac roedd cyd-chwarae a chefnogi ei gilydd yn nodwedd amlwg o'r diwrnod. Chwaraewyd naw o gêmiau i gyd; enillwyd saith, cafwyd un gêm gyfartal a dim ond un a gollwyd. Ar y ffordd curwyd tîmau o ysgolion mawr y sir fel Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Aberteifi, Rhydyppennau, Plas-crug ac Ysgol y Ddwylan. Roedd hi'n galonogol i weld cymaint o'r tîm yn sgorio hefyd – da iawn i Bedwyr, Lewis, Penri, Jac, Tomos, Gwydion, Ieuan a Dylan y gôl-geidwad am gynrychioli'r ysgol mor arbennig.

Y diwrnod canlynol, roeddem nôl ar gaeau Blaendolau'n cystadlu'n frwd mewn cystadleuaeth i ysgolion cylch Aberystwyth.

Diolch o galon i Karen Evans, Bernard Morris a Wyn Benjamin am bob cymorth gyda'r hyfforddi ac i'r rhieni i gyd am gefnogi.

Hoci

Pob hwyl i'r tîm hoci fydd yn chwarae yn rowndiau terfynol y gynghrair wythnos nesaf.

Mae antur yn aros amdanoch...

Dewch i ddarganfod traethau ysblennydd, teithiau cerdded hyfryd a rhaglen weithgareddau yn llawn cyffro. Neu ymwelwch ag un o'n hatyniadau gwych i'r teulu cyfan: teithiwch yn ôl mewn amser a darganfod eich rhyfelwr mewnol yng Nghastell Henllys, ymunwch â'r hwyl ganoloesol yng Nghastell Caeriw, neu manteisiwch ar gyfle i fod yn artist yn Oriel y Parc.

Cewch fwy o wybodaeth ar www.arfordirpenfro.org.uk.



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
Pembrokeshire Coast
National Park



Ymwelwch â'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd i ddarganfod diwrnod allan gwych.

Ysgol Tal-y-Bont



Diwrnod y Llyfr



Y disgyblion yn mwynhau diwrnod Comic Relief



Tîm pêl-droed y bechgyn



Tîm pêl-droed y merched



Helfa Basg

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cynhaliwyd amryw o weithgareddau i ddiddanu'r ifanc ar fore Sadwrn, 30 Mawrth. Roedd y digwyddiad a drefnwyd gan Gylch Meithrin Tal-y-bont yn llwyddiant mawr gan fod yn gyfle i blant yr ardal, rhieni a chyfeillion gwrrd a chymdeithasu yn Ysgol Tal-y-bont. Bu'r tywydd ar ein ochr gyda'r haul yn tywynnu'n braf ar y plant bach yn chwilota am wyau yn yr helfa Basg. Llwyddiant a ddaeth i bob un ohonynt ac fel gwobr i'w gwaith ditectif da gwnaethant dderbyn ŵy Pasg siocled! Cafwyd hwyl yng ngardd y Cylch Meithrin wrth i'r plant fwynhau cwmni ffrindiau bach newydd sef ŵyn, ieir, moch cwta a chi bach! Roedd neuadd yr ysgol yn fwrllwm o weithgareddau gyda pheintio gwynebâu a gewinau. I'r plant hŷn roedd cyfle iddynt arddangos eu doniau creadigol drwy ddylunio ŵy Pasg lliwgar. A pa ffordd gwell i ymlacio ar ôl yr holl ddiddanwch na chael phaned, cacen a chlonc... a chroesi bysedd i ennill un o wobrau'r raffl! Yn wir cafwyd bore hwyliog iawn! Yn ogystal â'r hwyl, mae digwyddiadau o'r fath yn hanfodol er mwyn codi arian i'r Cylch. Diolch twymgalon felly i bawb a gefnogodd y digwyddiad. Diolch i'r rhieni a fu wrthi'n ddiwyd yn coginio'r cacennau blasus ac ymgymryd â dyletswyddau'r bore. Diolch i gwmnïau'r fro a wnaeth ein cefnogi unwaith yn rhagor drwy gyfrannu'n hael at y raffl.

Helo a Ta-ta!

Rydym wedi ffarwelio â Finley a Lauren sydd bellach wedi cychwyn yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont, ac yn croesawu Maya i'n plith. Hefyd croeso i Rhian Wyn Jones atom fel myfyrwraig ar y cynllun Cam wrth Gam y Mudiad Meithrin.

Arolwg ESTYN

Ar y 18 a 19 o Fawrth cafodd Cylch Meithrin Tal-y-bont arolygiad gan Estyn. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Pleser oedd darllen adroddiad Dorothy Morris yn datgan bod perfformiad y lleoliad yn dda. Rhaid gwerthfawrogi'r canmoliaeth bod y "lleoliad yn darparu gwerth da am arian" ac yn darparu "amgylchedd hapus, gofalgwr a chynhaliol i'r holl blant". Cychwyn ardderchog i'r rhai bach ar eu gyrfa addysgiadol. Estynnaf ddiolch i'r rhieni a fu wrthi'n ddiwyd yn peintio'r ffens yn ddiweddar yng nghefn y Caban ac i Anti Shan, Anti Ellyw, Anti Annwen ac Anti Gaynor am eu holl gwaith paratoi.

Cyfarfodydd Pasg 1901

Roedd cyfnod Y Pasg yn adeg prysur i'r enwadau yn y dyddiau a fu a chynhelid digwyddiadau amrywiol yn y capeli a'r eglwys lleol. Gyda dyfodiad tywydd cynhesach y gwanwyn roedd yn adeg rhoi heibio ddillad trwm y gaeaf, ac yn gyfle i'r gwragedd a'r plant wisgo dilledyn neu het newydd am y tro cyntaf. Ar ddydd Gwener y Groglith roedd aelodau capel Rehoboth, Taliesin, yn gorymdeithio i Dre'r-ddôl tu ôl i'r sawl a gariai faner anferth, ac yna'n mwynhau te a chyngerdd yn y festri wedyn.

Yr un modd roedd aelodau Soar, Tre'r-ddôl yn gorymdeithio i Daliesin gyda'i baner hwy, gan fwynhau te a chyngerdd gyda'r nos yn Yr Hen Gapel. Yng nghapel y Tabernacl, Tal-y-bont cynhelid cyfarfodydd pregethu ar nos Iau a dydd Gwener y Groglith, gyda dwy bregeth ymhob cyfarfod. Cynhelid 'Holi Pwnc' ar ddydd Sul y Pasg yng nghapel Bethel, Tal-y-bont gydag aelodau capeli megis Seion Ceulan a Phensarn yn cymryd rhan yn ogystal, ac yna'r cyfarfodydd pregethu ar y nos Fawrth a'r dydd Mercher canlynol.

Yn 1901, roedd fy Nhad-cu (James Pearce Evans, Y Siop, Bontgoch) yn byw yng nghwm Ceulan ac yn aelod yng nghapel Seion Ceulan. Nos Wener y Groglith y flwyddyn honno aeth i gyfarfod yr hwyr yng nghapel y Tabernacl i wrando ar 'bregethau ardderchog'. Cymerodd ran yn yr Holi Pwnc yng nghapel Bethel ar Sul y Pasg, gyda'r pregethwr Davies, Cadle yn holi, ac yna mynychodd y cyfarfodydd ar y nos Fawrth a'r dydd Mercher canlynol.

Deuthum o hyd i'r adroddiad canlynol a ysgrifennodd yn ei ddyddiadur am y cyfarfodydd hynny yn 1901, ac mae'n amlwg ei fod yn gwrandao'n astud ar y pregethau er mwyn llunio'r nodiadau.

Cyfarfod nos Fawrth, 9 Ebrill

Pregethwyd gan ddydd ieuanc o'r enw Williams ar y bedwaredd adnod ar bymtheg o'r bedwaredd bennod yn Efengyl Mathew. Siaradau ar gymeriadau y pedwar disgybl cyntaf, sef Pedr, Andreas, Iago ac Ioan. Yr oedd Pedr yn un a thanbeidrwydd neilltuol yn perthyn iddo. Yr oedd Andreas fel cenhadwr cartrefol, yr hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd ei hun Seimon ac a'i dug at yr Iesu. Yr oedd Iago yn weithiwr mawr ac y mae sŵn gwaith trwy yr holl adnodau sydd yn yr epistol ag sydd yn dwyn ei enw. Yr oedd Ioan yn un tawel, meddylgar, yn meddwl llawer mwy nag oedd yn siarad, ac y mae eisiau y pedwar cymeriad yma yn yr Eglwys o hyd. Pregethodd yn dda iawn.

Yna fe esgynnodd Towyn Jones i'r pulpud a thynnodd ei destun yn Daniel, y chweched bennod a'r drydedd adnod: 'Yna y Daniel hwn oedd yn rhagori ar y rhaglafiaid a'r tywysogion oherwydd bod yspryd rhagorol ynddo ef, a'r brenin a feddyliodd ei osod ef ar yr holl deyrnas'. Dywedai mai nid trwy foddhau y brenin y daeth Daniel yn fawr yn Babilon, ond trwy bara i weddio ar ei Dduw, ac felly y mae llwyddiant o hyd yn dyfod i'r rhai sydd yn boddhau Duw ac nid wrth foddhau dyn. Pregethodd yn rymus anghyffredin.

Cyfarfod dau o'r gloch dydd Mercher, 10 Ebrill

Y cyntaf i bregethu oedd Williams, a chymerodd ei destun o'r 2 Brenhinoedd, y 18 bennod a'r 4edd adnod: 'Efe a dynnodd ymaith yr uchelfeydd, ac a ddrylliodd y delwau ac a dorodd y llwyni ac a faluriodd y sarp bres a wnelasai Moses; canys hyd y dyddiau hynny yr oedd meibion Israel yn arogl-darthu iddi hi; ac fe a'i galwodd hi Ne'. Dywedai fod y sarp bres yn iawn yn ei lle ei hun ond pan y daeth i le Duw yr ydoedd yn myned yn bechod. Enwai lawer o bechodau, megis cynildeb yn troi yn gybydd-dod. Y mae cynildeb yn dda, ond pan y troia yn gybydd-dod y mae yn myned yn bechod. Y mae hunanoldeb yn dda ond pan y mae dyn yn myned i addoli ei hunan yna mae yn troi yn bechod. Y mae cyfoeth yn dda, ond pan yr â dyn i addoli ei gyfoeth y mae yn myned yn bechod. Y mae pleser yn dda ac yn angenrheidiol i bawb, ond pan yr awn ni i redeg ar ôl pleser yn barhaus, yna mae yn cymeryd i fyny le Duw, ac felly yn bechod ofnadwy. Y mae y pethau hyn yn dda yn eu lle eu hunain, ond pan yr ant i le Duw y maent yn troi yn felltith yn lle bendith, ac y mae yn bryd ei symud oddi ar ein ffordd, fel y sarp bres yn Israel.

Ar ôl Williams y daeth Towyn Jones a chymerodd ei destun yn Luc yr ail bennod ar 12ed adnod [dim manylion pellach].

Cafwyd cyfarfodydd da iawn, a chafwyd canu lled gywir a bywiog.

Carys Briddon

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cyfarfu aelodau'r Cyngor Cymuned ar 11 Mawrth ac 8 Ebrill i drafod yr ohebiaeth a dderbyniwyd a'r materion yn codi.

11 Mawrth:

Cawsom adroddiad am y datblygiadau diweddaraf am Brosiect Llifogydd Dyfi gan y Cynghorydd Guy Pargeter, a phenderfynwyd anfon adroddiad am ein pryderon at Asiantaeth yr Amgylchedd.

Adroddwyd bod adroddiad drafft wedi ei baratoi gan Meriel o 'Cynnal y Cardi' ynglŷn â'r ymateb a gafwyd yn y cyfarfodydd agored a gynhaliwyd yn y gymuned yn ystod yr hydref.

Derbyniwyd gwahoddiadau gan Biosffer Dyfi a'r Gymdeithas Gwarchod Adar i ni weld eu prosiectau diweddaraf.

Derbyniwyd llythyrau gan nifer o gymdeithasau lleol yn diolch am y rhoddion ariannol.

Mae cyflwr y ffyrdd yn y gymuned yn dal i greu pryder a phenderfynwyd gofyn i'r Clerc hysbysu adrannau perthnasol y Cyngor ynglŷn â'r ffordd yn y Goetre, y ffordd yn suddo ger Tynllwyn, a'r tyllau yn y ffordd yn Stryd y Capel.

Derbyniwyd cais cynllunio i godi pont newydd dros yr afon yng nghwm Cletwr, Tre'r-ddôl.

8 Ebrill:

Croesawyd Meriel Davies i'r cyfarfod a chafwyd adroddiad drafft ganddi ar ymgynghoriad Cynnal y Cardi 2012 yn yr ardal. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd anfon unrhyw adborth at Meriel erbyn diwedd y mis.

Derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Ceredigion y byddant yn rhoi cerrig mân ar ochr y ffordd i lawr o'r Temperance i greu mwy o lefydd parcio ar gyfer pentrefwyr.

Derbyniwyd cadarnhad gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd y byddant yn rhoi arwyddion y naill ochr i Erglodd yn fuan i rybuddio gyrrwyr am y corneli peryglus.

Cynhelir Cyfarfod Ymgynghorol gydag Arweinydd Cyngor Ceredigion yn Neuadd Rhydpennau ar 24 Ebrill, a bydd y Clerc a'r Cynghorydd Guy Pargeter yn bresennol i drafod pynciau yn ymwneud â'n gymuned.

Mae'r ffordd ger Ty'n-llwyn, Llangynfelyn yn dymchwel ac mewn cyflwr peryglus a bydd y Clerc yn adrodd hyn wrth Adran Briffyrdd Cyngor Ceredigion.

Penderfynwyd adnewyddu ein aelodaeth o Un Llais Cymru eto eleni.

Derbyniwyd cais cynllunio gan Mr a Mrs Chapman am dŷ ger Pantglas, Tre'r-ddôl.

Y cyfarfod nesaf fydd y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir nos Lun, 13 Mai yn Llan-fach am 7 o'r gloch.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn
Cynhelir
CYFARFOD BLYNYDDOL
ar nos Lun, 13 Mai 2013
yn Llan-fach, Taliesin am 7.00 o'r gloch

Gŵyl Flodau yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
24-27 Mai 2013 11am-6pm

Gwyllo'r Gwanwyn

27 Mai 2013 - Dydd Llun Gŵyl y Banc, 7.00pm

Adloniant Canu – SGARMES

Bydd tocynnau ar gael yn ystod yr Ŵyl Flodau ac wrth y drws £8.00.
Consesiwn £5.00. Plant am ddim

Gwybodaeth bellach: joyneal@btinternet.com 01654 781203
alisonswanson@hotmail.com 01654 781322

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Ar nos Lun, 15 Ebrill, croesawyd Dr Richard Edwards, Aberystwyth atom i sôn am 'Fapiau Hynafol Prydain'. Bu'n casglu hen fapiau ers rhai blyneddodd a thrwy gymorth sleidiau cawsom weld lluniau o nifer o'r hen fapiau o Gymru a Phrydain sydd yn ei gasgliad. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Eirian Evans, a chafwyd lluniaeth i ddilyn wedi ei baratoi gan Enid Gruffudd a Mair Rowlands.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cyfarfu'r aelodau yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynghawn Mawrth, 12 Mawrth, a chroesawyd Iestyn Hughes, Bow Street, a ddaeth atom ar fyr rybudd. Erbyn hyn mae wedi ymddeol o'i waith yn y Llyfrgell Genedlaethol lle creodd Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru. Ers ymddeol bu'n brysyr yn tynnu lluniau ar gyfer gweisg a hefyd ar gyfer llyfr daearyddiaeth Cymru. Testun ei sgwrs oedd 'Taith y Lens' a dangosodd luniau ardderchog a dynnwyd ganddo bob mis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth iddo deithio o ardal i ardal, a hefyd cawsom y stori tu ôl i'r llun. Diolchwyd iddo am brynghawn difyr ac addysgiadol gan Eirlys Jones. Non Griffiths, Daphne Farthing ac Eirlys Jones oedd yng ngofal y te.

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Cawod Defaid Symudol ARTHUR MORGAN

Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'



Pencefnw, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwalle gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Y Gair Olaf



Baw ci, y tywydd, cyflwr yr economi, dewiswch un ac mae'n siŵr i chi y bydd gennych chi, fel finnau, air neu ddau i'w ddweud ar y mater. Efallai ei bod hi wedi mynd yn haws i'r pethau 'negyddol' mewn bywyd i dynnu ein sylw a ninnau'n rhy barod i weld y gwaethaf ymhob peth yn hytrach na dilyn apostol Monty Python trwy geisio edrych ar yr ochr olau o bethau. Dwi'n derbyn mai anodd a dweud y lleiaf byddai ceisio rhoi 'sbin' bositif ar lwmpyn o faw ci drewllyd ar wadnau eich 'sgidie newydd a chithau wedi cyrraedd ystafell fyw ffrind er mwyn gweld y carped newydd lliw hufen. Awr dywyll iawn fyddai honno i'r mwyafrif ohonom. Ond os nag oes yna olau ar ddiwedd y twnel, beth sydd o'i le ar gario eich torts eich hun?

Dwi'n cyfri fy hun yn ddynes ffodus ac yn cyfri fy mendithion; teulu, ffrindiau, bwyd yn fy mol a tho uwch fy mhen a than yn gymharol ddiweddar iechyd reit dda. Hynny yw tan y ddamwain sgïo a barodd i nghoesau edrych yn debycach i Transformer sy'n methu penderfynu a'i dyn neu robot yw am fod. Methu gweithio, methu gyrru, methu garddio, methu'r gwersi ioga a 'zumba' wythnosol. Mae'r pethau dwi'n eu colli oherwydd y ddamwain anghyfleus yma yn troi'n rhestr ddi-diwydd. Ond hold on Defi John, beth am yr holl lyfrau gwyh 'dw i wedi eu darllen a'r ffilmiau bendigedig oedd yn hel llwch yn disgwyl eu gwyllo. Mae mwynhau machlud haul a sŵn adar yn brofiadau a fu y tu hwnt i gyrraedd menyw brysur. Felly, am y tro o leiaf, eisteddaf yn ôl a mwynhau fy nghwpaned o goffi sydd gyda llaw yn hanner llawn.

Helen Jones



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON

Chwarae Dros Gymru

Cafodd Nia Jones, Tal-y-bont sy'n ddisgybl yn Ysgol Penweddig, y cyfle i hyfforddi gyda Thim Pêl-droed Merched Cymru Dan-17 yng Nghaerdydd, ym mis Ionawr. Wedi tri diwrnod o hyfforddi fe aeth ymlaen i chwarae dwy gêm dros Gymru yn erbyn Lloegr ar ddau achlysur yn St. George's Park, Burton upon Trent, gyda Chymru yn ennill 1-0. Yn dilyn gwerysll hyfforddi yng Ngwesty'r Vale, Bro Morgannwg, cafodd ei dewis i gynrychioli Cymru yn Nhwrnamaint Datblygu UEFA ym Mharc Chwaraeon Morgannwg yng nghanol mis Ebrill. Chwaraeodd yn erbyn timoedd Gogledd Iwerddon, Gwlad yr Iâ ac Ynysoedd Ffaröe.



Noson rasys

Cynhaliwyd noson rasys hynod lwyddiannus yn y Llew Gwyn ar nos Sadwrn 13 Ebrill er mwyn codi arian ar gyfer Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Olyn Galch. Roedd y dafarn yn orlawn o gefnogwyr y fenter ac yr oedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau noson hwylus. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i Ceri Jones am drefnu'r noson ac i holl noddwyr y rasys.

Pencampwyr

Llongyfarchiadau i Gwenno Evans, Tanllan, Llangynfelyn, a Nia Jones, Ardwyn, Tal-y-bont, am eu llwyddiant gyda thim hoci Bow Street, pencampwyr Adran Pedwar Cynghrair y Gorllewin. Enillodd Gwenno gwobr y clwb am chwaraewr ifanc y flwyddyn a Nia y wobwr am chwaraewr y flwyddyn.

Yn y ffeinal

Llongyfarchiadau i glwb pêl-droed Tal-y-bont ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ail Adran cynghrair Cambrian Tyres. Yn y rownd gynderfynol curwyd Eilyddion Prifysgol Aberystwyth, gydag Eilir Huws yn sgorio unig gôl y gêm. Cynhelir y ffeinal yn erbyn Trawsgoed ar faes Bow Street ar nos Fawrth 14 Mai.



Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Ben Phillips, Capel Bach, Eglwysfach, am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth 'tumbling' gymnasteg yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar.



Talybont Teigars dan 7 – yng Nghystadleuaeth Penrhyncoch – ymdrech dda gan y bois gan ennill 4 gêm, colli 2 ac un gêm gyfartal. Da iawn chi bois.



Talybont Teigars dan 9 yng Nghystadleuaeth Penrhyncoch – ennill 2 gêm gyngair a cholli yn y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth y plât.

Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Olyn Galch, Talybont a'r Cylch

Dewis Lwcus £1 yr un Gwobrau | £100 | £50 | £25
Bydd bwyd ar gael ar y maes

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11

Dechrau 10am

Oedolion **£1**

22/6/13

